# 7. Cymorth a Hyfforddiant i Lywodraethwyr

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth sy'n ymwneud â:

- chymorth a hyfforddiant sydd ar gael i lywodraethwyr, sut mae'n cael ei ariannu a sut mae cael gafael arno;
- talu lwfansau ar gyfer treuliau; a
- hawl i amser i ffwrdd i gyflawni dyletswyddau llywodraethu.

**Cefndir**

1. Mae'n ofynnol i'r ALl ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant fel y tyb sy'n angenrheidiol fel y gall llywodraethwyr gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae'n rhaid iddynt ddarparu hyn am ddim i bob llywodraethwr unigol.

2. Am wybodaeth am gyrsiau a ddarperir, cysylltwch â'ch swyddog cymorth llywodraethwyr lleol. Yn amodol ar gytundebau lleol, mae'r mwyafrif o ALlau yn cynnig pecyn hyfforddiant llywodraethwyr a chlercod i ysgolion (efallai y bydd y corff llywodraethu yn gorfod talu am hyn).

3. Gellir hefyd trefnu hyfforddiant mewn sesiwn a drefnir ar gyfer grwpiau o lywodraethwyr unigol, sesiynau cyrff llywodraethu unigol neu glwstwr o gyrff llywodraethu.

4. Nid yw hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr a chlercod yn orfodol, ond mae'n cael ei annog yn frwd. Bydd yn cynorthwyo llywodraethwyr unigol a'r corff llywodraethu yn y pen draw i fod yn fwy effeithiol. Mae angen hyfforddiant ar bob llywodraethwr, **pa bynnag mor brofiadol ydyw**, er mwyn gallu dal i fyny gyda newidiadau. Dylai llywodraethwyr newydd fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi, yn enwedig hyfforddiant cynefino ar swyddogaeth llywodraethwyr.

5. Mae amrywiaeth eang o hyfforddiant a chymorth ar gael a dylai pob corff llywodraethu hunanwerthuso ei berfformiad yn rheolaidd, ystyried ei anghenion datblygiadol a nodi hyfforddiant, ar gyfer y bwrdd llywodraethwyr a llywodraethwyr unigol, i ddiwallu'r anghenion hynny.

6. Cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yw'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer mathau eraill o hyfforddiant i lywodraethwyr, sut bynnag y cânt eu darparu. Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cynllun cyllideb cyntaf mewn unrhyw flwyddyn a dylai sicrhau bod darpariaeth yn cael ei dyrannu o fewn y gyllideb honno i sicrhau bod anghenion datblygu'r corff llywodraethu'n cael eu diwallu.

**Ffynonellau Hyfforddiant a Chyngor Eraill**

7. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllid i gynorthwyo Llywodraethwyr Cymru a Chanolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil. Mae'r manylion cyswllt ar gael ym mharagraff 22.

8. Mae Llywodraethwyr Cymru yn cynnig ffynhonnell wybodaeth, cyngor a chanllawiau annibynnol, gan gynnwys:

- llinell gymorth gyfrinachol (0845 60 20 100 – pris galwad leol) gyda chymorth barn gyfreithiol annibynnol;
- gwefan yn www.llywodraethwyrcymru.org.uk;
- Llawlyfr ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru, a ddiweddarwyd yn 2007 a 2009 – mae copïau o'r llawlyfr ar gael ar wefan Llywodraethwyr Cymru, gweler uchod;
- canllawiau, gan gynnwys Ffeiliau Ffeithiau a Chanllawiau Llywodraethwyr ar bynciau amrywiol.

9. Mae Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil yn cynnal ymchwil i elfennau amrywiol hyfforddiant ac ymchwil llywodraethwyr ac yn cyhoeddi Cadwyn, cylchlythyr rheolaidd ar gyfer llywodraethwyr yn ogystal â deunyddiau hyfforddiant i ategu'r hyfforddiant ar gyfer clercod a chadeiryddion. Mae copïau o'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar wefan Llywodraethwyr Cymru.

10. Mewn ysgolion sefydledig neu ysgolion sefydledig arbennig, gall y sefydliad perthnasol, sef corff esgobaethol yn aml, hefyd ddarparu hyfforddiant ar bynciau penodol sy'n berthnasol i ysgolion o'r fath.

11. Yn ogystal â'r rhain, mae sawl ffynhonnell gyngor a chymorth annibynnol ar gyfer llywodraethwyr, wedi'u hargraffu ac ar y we, gan gynnwys llawer sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Os ydych chi'n defnyddio gwybodaeth o'r fath, fe'ch argymhellir yn frwd i sicrhau bod unrhyw gyngor a roddir yn berthnasol i ddeddfwriaeth a rheoliadau sydd mewn grym yng Nghymru.

**Amser i ffwrdd o'r gwaith**

12. O dan Adran 50 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, rhaid i gyflogwyr roi i weithwyr sy'n llywodraethwyr ysgol 'amser rhesymol i ffwrdd' i gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i'r gweithiwr a'r cyflogwr gytuno ar yr hyn sy'n 'amser rhesymol i ffwrdd'. Dyma rai o'r pwyntiau y byddant yn eu hystyried:

- faint o amser sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau llywodraethwyr;
- a yw'r gweithiwr hefyd yn cael amser i ffwrdd o'i waith ar gyfer gweithgareddau eraill;
- amgylchiadau busnes y cyflogwr; ac
- effaith debygol absenoldeb y gweithiwr arno.

## Talu am amser i ffwrdd

13. Gall cyflogwyr roi amser i ffwrdd gyda thâl, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny. Mae hyn yn beth i'w drafod rhwng y gweithiwr a'r cyflogwr.

## Datrys anghytundebau

14. Os na all y gweithiwr a'r cyflogwr gytuno ar unrhyw rai o'r cwestiynau hyn, gall y naill neu'r llall ofyn am gymorth y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chymrodeddu (ACAS) a fydd yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau yn anffurfiol. Gall gweithiwr sydd yn dal yn anfodlon gwyno wrth dribiwnlys cyflogaeth.

## Lwfansau am dreuliau

15. Mae Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 yn darparu ar gyfer lwfansau i'w talu i lywodraethwyr, ac aelodau o bwyllgorau nad ydynt yn llywodraethwyr.

16. Gall corff llywodraethu ysgol a gynhelir gyda chyllideb ddirprwyedig wneud taliadau ar ffurf lwfansau i'w aelodau.

17. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu gytuno ar bolisi neu gynllun ar gyfer talu lwfansau o'r fath sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni all y cynllun wahaniaethu rhwng aelodau'r corff llywodraethu ac aelodau is-bwyllgorau neu gategorïau gwahanol o lywodraethwyr.

18. Gellir talu costau teithio a chynhaliaeth ond ni all y gyfradd fod yn uwch na'r hyn a nodir gan Lywodraeth y Cynulliad.

19. Gellir talu treuliau eraill ar ôl dangos derbynneb ar gyfradd y mae'r corff llywodraethu'n cytuno arni. Gellir ond talu llywodraethwr am wariant y mae wedi'i wneud er mwyn ei alluogi i gyflawni ei ddyletswydd fel llywodraethwr neu aelod is-bwyllgor y corff llywodraethu, fel ad-dalu costau am:

- drefniadau gofalu am berthynas dibynnol (gan gynnwys costau gofal plant neu warchod);
- cymorth ar gyfer cyfarpar clywedol llywodraethwyr;
- cymorth ar gyfer llywodraethwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf (er enghraifft, cyfieithiadau); a
- thaliadau ffôn, llungopïo, papur ysgrifennu, ac ati.

20. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, a dylai'r corff llywodraethu lunio cynllun yn pennu pa lwfansau y maent yn eu talu. Ni ellir talu lwfansau presenoldeb a cholli enillion. Rhaid dangos treuliau teithio a chynhaliaeth yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

21. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth er mwyn i ALl allu talu lwfansau i aelodau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir heb gyllideb ddirprwyedig.

**Gwybodaeth Bellach**

22. Gallwch gael gwybodaeth am yr hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael i lywodraethwyr gan gydlynwyr hyfforddiant llywodraethwyr yr ALl. Mae gwybodaeth bellach hefyd ar gael gan y sefydliadau canlynol:

Llywodraethwyr Cymru
Llawr Daear
3 Llys Oaktree
Mulberry Drive
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RS

Ffôn: Llinell Gymorth 0845 60 20 100
E-bost: contact@governorswales.org.uk
www.llywodraethwyrcymru.org.uk

Y Gwasanaeth Addysg Catholig
39 Ecclestone Square
Llundain SW1 1BX

Ffôn: 020 7901 4880
E-bost: general@cesew.org.uk
www.cesew.org.uk

Comisiwn Ysgolion Esgobaethol
41-43 Cathedral Road
Caerdydd CF1 9HD

Ffôn: 029 20233838
E-bost: publications@rcadc.org
www.rcadc.org/index.htm

Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil,
Ysgol Addysg Abertawe,
Prifysgol Fetropolitan Abertawe,
Heol Townhill,
ABERTAWE,
SA2 0UT

Ffôn: 01792 518609
E-bost: s.e.gullick@sihe.ac.uk
www.smu.ac.uk/schoolgovernor

# Y Gyfraith

Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, adrannau 50 a 51
Deddf Addysg 2002 Rhan 3, Pennod 1, Adran 22
Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 OS 2005/2915

## Canllawiau

Llyfryn yr Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) 'Time Off for Public Duties' sydd ar gael drwy ffonio Llinell Archebu Cyhoeddiadau BERR ar: 020 7215 5000 neu 020 7215 6740 (Minicom)

Cyfeiriad: Ministerial Correspondence Unit, Department for Business, Enterprise & Regulatory Reform, 1 Victoria Street, Llundain SW1H 0ET.
www.berr.gov.uk/employment/employment-legislation

'Canllawiau Cronfa Ysgolion Gwell' Llywodraeth Cynulliad Cymru
http://new.wales.gov.uk/publications/?lang=cy
e-bost: betterschoolsfund@wales.gsi.gov.uk